Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y gost o weithredu'r Cynulliad

4 Ebrill 2019

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Mawrth, pan wnaethoch ofyn,

*Hoffwn wybod y gost flynyddol o weithredu'r Cynulliad yn 2017/18 a'r costau ar gyfer yr isod yn benodol:*

1. *Costau cyflog Aelodau Cynulliad unigol*
2. *Treuliau Aelodau Cynulliad unigol*
3. *Cyfanswm costau staff cymorth*
4. *Cyfanswm costau cynnal a chadw'r Senedd*
5. *Cyfanswm costau ynni'r Senedd*
6. *Cyfanswm y ffioedd a dalwyd i ymgynghorwyr allanol*

Dyma ein hymatebion i'ch ceisiadau.

1. *Costau cyflog Aelodau Cynulliad unigol*

Cyflog Aelod Cynulliad ar hyn o bryd yw £66,847. Pennwyd cyflog o £64,000 ar ddechrau'r Pumed Cynulliad a chaiff ei addasu'n ôl enillion cyfartalog yng Nghymru (gweler paragraff 3.9, tudalen 11 o'r Penderfyniad). Bydd yr Aelodau'n gymwys i gael cyflogau ychwanegol os bydd ganddynt swydd ychwanegol, ee os ydynt yn Weinidog neu'n Gadeirydd Pwyllgor. Mae'r swyddi hyn wedi'u rhestru ym mharagraff 3.1.4 o'r Penderfyniad. Gallwch weld pa Aelodau sy'n Cadeirio Pwyllgor drwy edrych ar broffiliau Aelodau'r Cynulliad.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

2. *Treuliau Aelodau Cynulliad unigol*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Cyhoeddir holl dreuliau Aelodau'r Cynulliad ar gronfa ddata ar-lein. Os oes angen cyfarwyddiadau manwl arnoch ar sut i chwilio am y wybodaeth berthnasol, byddwn yn hapus i'w hanfon atoch.
Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

*3. Cyfanswm costau staff cymorth*

Mae'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi yn adroddiad Blynyddol 2017/18 (tudalen 155)
Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

*4. Cyfanswm costau cynnal a chadw'r Senedd*

Cyfanswm costau cynnal a chadw'r Senedd oedd £355,932.

*5. Cyfanswm costau ynni'r Senedd*

Cyfanswm costau ynni'r Senedd oedd £104,178.55.

*6. Cyfanswm y ffioedd a dalwyd i ymgynghorwyr allanol*

Cyfanswm y ffioedd a dalwyd i ymgynghorwyr allanol oedd £185,442.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y [Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth](). Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF